# CREU EICH CHWEDL EICH HUN

Mae chwedl yn stori hynafol gyda chymeriadau a digwyddiadau rhyfeddol. Mae rhai chwedlau yn dweud wrthym am darddiad lleoedd, credoau diwylliannol a symbolau.

Yn aml mae ganddyn nhw gymeriadau nad-yw'n-ddynol fel duwiau, anifeiliaid, grymoedd naturiol a chreaduriaid eraill.

# YDYCH CHI'N GWYBOD UNRHYW CHWEDLAU?

Oeddech chi'n gwybod bod y mynydd Cymreig Cadair Idris yn Eryri wedi'i enwi ar ôl chwedl am gawr o'r enw Idris a oedd yn arfer eistedd arno fel gorsedd?

Ydych chi wedi clywed am chwedl Icarus, y plentyn a oedd yn gwisgo'r adenydd mawr a wnaeth eu tad ar eu cyfer ac a hedfanodd yn agos iawn at yr haul?

Mewn chwedl yn aml mae antur neu dro rhyfeddol o ddigwyddiadau, gall llinellau amser symud, gall cymeriadau newydd ddod allan o unman a gall coed, llynnoedd neu fynyddoedd siarad a rhyngweithio'n uniongyrchol â phobl.

# DYMA AWGRYM I'CH HELPU CHI I GREU CHWEDL EICH HUN:

Mae yna ddelwedd o The Storm Tree, llun gan David Jones, wedi'i gynnwys yn y pecyn hwn. Edrychwch arno'n fanwl.

A yw'n eich atgoffa o unrhyw goed yr ydych yn eu hoffi? A allwch atgofio eich cof eich hun o weld coeden yn dawnsio yng nghanol storm? Canghennau'n siglo gan y gwyntoedd, glaw yn chwyrlïo o gwmpas, rhu'r taranau a'r fflach sydyn o fellt!

Gallwch greu chwedl ar gyfer eich coeden storm sy'n siarad am gryfder ei gwreiddiau.

Rhowch enw i'ch coeden, gwnewch hi'n unigryw.

Defnyddiwch y ffigurau yma i greu gludwaith o amgylch eich coeden.

Nawr cysylltwch y ffigurau gwynt, glaw, taranau a mellt o amgylch y goeden a dychmygwch beth sydd gan bob un ohonyn nhw i'w ddweud wrth y goeden.

Sut lais sydd gan y gwynt stormus? Pa gwestiynau ydi'r glaw yn gofyn i'r dail? Beth yw neges swnllyd y taranau? A beth mae mellt yn dangos i'r goeden mewn fflach o olau?

Ar ôl i chi roi llais i'r holl rymoedd naturiol hyn, meddyliwch sut mae'r goeden yn ymateb i bob un ohonyn nhw.







David Jones, The Storm Tree, 1948
Dyfrlliw, pensil a phastel ar bapur

Trwy garedigrwydd Ymddiriedolwyr Ystâd

David Jones a Chasgliad y British Council.

Llun © The British Council